Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'fod yn arweinydd byd mewn ymateb brys a diogelwch cymunedol.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,





Craig Flannery
Chief Fire Officer

## EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of mid and west Wales.



#eichgtacgc #yourmawwfrs

# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Foesegol
- Bod yn Barchus
- Bod yn Ddiduedd

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Cadernid Ariannol
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km$^2$)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

City and County of Swansea – Dinas a Sir Abertawe · Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Neath Port Talbot Council · Cyngor Sir Gâr – Carmarthenshire County Council · Cyngor Sir Penfro – Pembrokeshire County Council · Powys

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**

yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân

gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

**Cyfraddau cyflog cystadleuol -**
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -**
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

**Gwyliau Blynyddol hael –**
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

**Cynllun Hyblyg –**
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#SERO30**

# Proffil Swydd

Cyflog:£54, 495- £55,593

**MANYLION AM Y SWYDD HON**

Rôl y Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol yw arwain swyddogaethau Llywodraethiant Corfforaethol a Gwasanaethau Democrataidd y Gwasanaeth, gan weithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer Aelodau'r Awdurdod Tân. Mae'r swydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethiant, gwneud penderfyniadau a gofynion statudol wrth reoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gweithdrefnau cwynion allanol.

Mae cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys goruchwylio fframweithiau llywodraethiant mewnol a gwneud penderfyniadau, cynnal cydymffurfiaeth â gofynion cyfansoddiadol a deddfwriaethol, a rhoi cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth i Aelodau'r Awdurdod Tân. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys rheoli cwynion, prosesau Rhyddid Gwybodaeth, cofrestrau rhoddion a lletygarwch, a gweithdrefnau datganiadau o fuddiant. Yn ogystal, bydd y rheolwr yn cynhyrchu adroddiadau, yn cyflwyno yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r arweinyddiaeth, yn gweithredu fel Dirprwy Swyddog Monitro, ac yn cefnogi dyletswyddau'r Clerc. Mae monitro cytundebau cydweithredol, gweithredu arferion gorau, rheoli cyllidebau adrannol, a goruchwylio perfformiad staff hefyd yn agweddau hanfodol ar y rôl. Mae hyrwyddo polisïau iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, amrywiaeth, diogelu a diogelwch gwybodaeth yn rhan hanfodol o'r swydd.

**Y Person**

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol radd neu gymhwyster proffesiynol perthnasol. Dylent feddu ar wybodaeth gref am fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer llywodraethiant leol a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, yn ogystal â phrosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol, ymdrin â chwynion, ac egwyddorion llywodraethiant. Mae profiad mewn gwasanaethau democrataidd, materion cyfansoddiadol, gweithio gydag aelodau etholedig ac uwch reolwyr, ysgrifennu adroddiadau a chofnodion, cynllunio ymlaen llaw, darparu hyfforddiant, rheoli newid sefydliadol, perfformiad staff, a goruchwylio cyllideb yn hanfodol.

Mae sgiliau a phriodoleddau allweddol yn cynnwys ymwybyddiaeth wleidyddol, meithrin perthynas, galluoedd cyfathrebu a chyflwyno rhagorol, a meddwl dadansoddol a strategol cryf gyda barn gadarn. Mae angen hyfedredd mewn TG, hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gweithredol, a lefel uchel o onestrwydd a disgresiwn, ynghyd ag ymrwymiad i gydraddoldeb a diogelu. Mae gofynion eraill yn cynnwys parodrwydd i deithio a gweithio y tu allan i oriau arferol, meddu ar drwydded yrru gyfredol, a gallu yn y Gymraeg, sy'n ddymunol.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 13 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **YN GYFRIFOL I:** | Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risg Cymunedol / Clerc a Swyddog Monitro yr Awdurdod Tân |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Yn gyfrifol am Lywodraethiant Corfforaethol y Gwasanaeth, sy'n cynnwys rheoli'r swyddogaeth Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>Bod yn brif bwynt cyswllt i Aelodau'r Awdurdod Tân; rheoli llywodraethiant mewnol, gwneud penderfyniadau a gofynion cydymffurfio'r Gwasanaeth.<br><br>Yn gyfrifol am reoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gweithdrefnau cwynion allanol y Gwasanaeth |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| 1. Rheoli'r swyddogaeth Gwasanaethau Democrataidd a Llywodraethiant Corfforaethol, gan sicrhau bod yr holl safonau a phrosesau priodol sy'n cwmpasu rheoli a chyflawni'r swyddogaeth yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llywodraethiant a gwneud penderfyniadau mewnol ar waith, yn gyfredol ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ac yn gyson. | Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risg Cymunedol. |
| 2. Meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol ag Aelodau'r Awdurdod, Adrannau Llywodraeth Genedlaethol a Lleol, Fforymau Gwydnwch Lleol, Gwasanaethau Brys, partneriaid a chyrff eraill y Llywodraeth. | Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risg Cymunedol. |
| 3. Cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau a chyflwyniadau ar fusnes cysylltiedig lle bo’n berthnasol, yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Tân a’r Pwyllgorau, cyfarfodydd y Tîm Arweinyddol Gweithredol, cyfarfodydd Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac unrhyw fforymau perthnasol eraill. | Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risg Cymunedol. |
| 4. Rheoli a darparu cyngor a hyfforddiant i aelodau'r Awdurdod Tân | Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risg Cymunedol. |
| 5. Rheoli cynnwys a chydymffurfedd â gweithdrefnau'r Gwasanaeth fel y bo’n briodol i gyfrifoldebau'r adran, gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno, Canmoliaeth a Sylwadau; y Weithdrefn Rhyddid Gwybodaeth; y Weithdrefn Rhoddion a Lletygarwch; y Weithdrefn Datgan Diddordeb; gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diwygio yn unol â hynny. | Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risg Cymunedol. |
| 6. Monitro a chynnal gweithdrefnau cydymffurfio’r Gwasanaeth, sicrhau bod canmoliaeth, cwynion, ceisiadau rhyddid gwybodaeth a chynllun cyhoeddiadau’n cael eu prosesu a’u hymchwilio’n effeithiol. | Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risg Cymunedol. |

| | |
|---|---|
| 7. Cefnogi Clerc yr Awdurdod Tân i ddarparu'r holl wasanaethau democrataidd yn effeithiol gan gynnwys: sicrhau bod cyfansoddiad yr Awdurdod yn cael ei gynnal a'i gadw; trefnu cyfarfodydd pwyllgor a chynlluniau gwaith fel y bo'n briodol; datblygu a gweithredu Strategaeth Datblygu Aelodau effeithiol; sicrhau bod blaenoriaethau'r Awdurdod Tân yn cael eu cyflawni yn effeithiol fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ac mewn perthynas â Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, Swyddfa Archwilio Cymru, Craffu effeithiol a'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol. | Clerc yr Awdurdod Tân |
| 8. Ymgymryd â rôl y Dirprwy Swyddog Monitro a dirprwyo ar ran Clerc yr Awdurdod fel y bo'n briodol. | Clerc yr Awdurdod Tân |
| 9. Darparu cyngor, her a chefnogaeth rhagweithiol, strategol, moesegol a phragmatig i'r Prif Swyddog Tân/Prif Swyddog Gweithredol, y Tîm Arweinyddol Gweithredol, Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a chynrychiolwyr yr Awdurdod Tân. | Clerc yr Awdurdod Tân/ Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 10. Yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad a monitro parhaus y Cod Llywodraethiant Corfforaethol, adolygu ei weithrediad ac adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth trwy gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. | Clerc yr Awdurdod Tân |
| 11. Monitro ac adolygu trefniadau cydweithredol (Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a Chytundebau Lefel Gwasanaeth) rhwng y Gwasanaeth a phartneriaid allanol | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 12. Datblygu cynllun hyfforddi'r Awdurdod Tân, gan adrodd ar gynnydd a pherfformiad. | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 13. Dyrannu ffrydiau gwaith i unigolion o fewn y swyddogaeth Gwasanaethau Democrataidd a Llywodraethiant Corfforaethol, gydag amcanion a chanlyniadau clir. Asesu perfformiad a rhoi adborth, datrys unrhyw broblemau drwy gytuno ar gynllun datblygu clir gydag amcanion. | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 14. Bod yn gyfrifol am y gyllideb swyddogaeth Llywodraethiant Corfforaethol ac am sicrhau gwariant effeithlon. | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 15. Bod yn gyfrifol am a rheoli'r trefniadau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau mewnol. | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |

| | |
|---|---|
| 16. Gweithredu gwerthusiad effeithiol i geisio gwelliannau effeithlonrwydd yn barhaus, gan optimeiddio systemau a phrosesau i wella effeithiolrwydd cyffredinol. | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 17. Cynnal ymarfer sganio'r gorwel helaeth i sicrhau bod arferion gorau lleol a chenedlaethol yn cael eu hadolygu a, lle bo'n briodol, eu hymgorffori yn y ddarpariaeth o allbynnau gwasanaeth democrataidd. Cadw polisïau a gweithdrefnau priodol yn gyfredol a sicrhau eu bod yn cael eu dilyn. | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 18. Gweithredu a hyrwyddo polisïau canlynol yr Awdurdod:<br>▪ Polisïau Iechyd a Diogelwch<br>▪ Polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br>▪ Polisïau System Rheoli Cyfrinachedd Gwybodaeth<br>▪ Polisïau Diogelu | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |
| 19. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau yn ôl yr angen sy'n dod o fewn cwmpas y swydd, gan gynnwys datblygiad personol perthnasol ar gyfer y rôl. | Pennaeth Corfforaethol Risg Cymunedol |

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

## MANYLEB Y PERSON

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD** | Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **RHIF Y SWYDD** | ADM.006 |
| **GRADDFA** | Gradd 13 |
| **ADRAN** | Rheoli a gwella risg |
| **GWIRIAD GDG** | Safonol |

Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â phob un o'r gofynion canlynol yn eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio rhestr fer. Dylech ddarparu tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn cwrdd â phob maes yn seiliedig ar eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Gradd berthnasol, neu gymhwyster proffesiynol, neu brofiad a gafwyd mewn rolau arweinyddiaeth tebyg | **Hanfodol*** | |
| | Cymhwyster rheoli perthnasol neu brawf o hyfforddiant arweinyddiaeth | **Hanfodol*** | |
| | Cymhwyster arweinyddiaeth, hyfforddi neu fentora, e.e. ILM | Dymunol | |
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth am y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraeth leol, etholiadau a llywodraethiant y sector cyhoeddus | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth am y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru | **Hanfodol*** | |
| | Dealltwriaeth amlwg o strategaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth am brosesau cwyno | Dymunol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o weithio o fewn swyddogaeth gwasanaethau democrataidd ac ymdrin â materion cyfansoddiadol<br><br>Profiad sylweddol o weithio gydag aelodau etholedig, uwch swyddogion, a sefydliadau partner<br><br>Profiad o ysgrifennu adroddiadau a chofnodion, cofnodi penderfyniadau, a chynllunio ymlaen llaw<br><br>Profiad o ddarparu hyfforddiant i amrywiaeth o fudd-ddeiliad<br><br>Profiad o reoli newid sefydliadol a diwylliannol o fewn sefydliad<br><br>Profiad o reoli staff yn uniongyrchol a rheoli perfformiad<br><br>Profiad o gynghori sefydliadau ar strategaethau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau mewnol<br><br>Tystiolaeth o reoli cyllideb adrannol | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | |
| **Sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Swydd/Personol** | Dangos ymwybyddiaeth wleidyddol a'r gallu i feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol<br><br>Sgiliau cyflwyno rhagorol a hyfedredd TG<br><br>Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>Gallu asesu gwybodaeth gymhleth a manwl a'i chydgrynhoi mewn strategaethau, gyda barn a rhesymu cadarn.<br><br>Meddwl creadigol a'r gallu i ddatblygu atebion ymarferol i broblemau tra'n cydbwyso nifer o faterion a blaenoriaethau yn briodol<br><br>Y gallu i weithio'n hyblyg a bodloni anghenion cyfathrebu gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub deinamig<br><br>Dangos ymwybyddiaeth o faterion sy'n sensitif yn wleidyddol a materion sensitif a chyfrinachol eraill, ac ymateb iddynt; bod yn amyneddgar, yn ddoeth ac yn ddiplomyddol.<br><br>Lefel uchel o uniondeb a disgresiwn proffesiynol<br><br>Rhoi cyngor/cyfarwyddyd effeithiol i Aelodau Etholedig ac arweinwyr Gweithredol o fewn sefydliad | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymrwymiad i Gynllun, Gweledigaeth ac Ymddygiadau Rheoli Risg Cymunedol GTACGC<br><br>Gallu profi ymrwymiad i arferion cydraddoldeb, mrywiaeth, cynhwysiant a diogelu yn y gweithle | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | |
| **Cyfathrebu** | Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol, a'r gallu i sgwrsio a chyfathrebu a thrafod gydag ystod eang o fudd-ddeiliad.<br><br>Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg (Lefel 4) | **Hanfodol***<br><br>Dymunol | |
| **Arall** | Yn barod i ymgymryd â hyfforddiant pellach yn ôl yr angen.<br><br>Ymagwedd hyblyg – yn barod i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol yn ôl yr angen<br><br>Yn barod i deithio – yn meddu ar drwydded yrru gyfredol. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** ......................................................................................................................................

**CYFIAWNHAD:**

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU:**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau:  09 Mawrth 2026

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk